



Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Targed
A	Cyffredinol	
1	I sicrhau ein bod yn helpu i liniaru tlodi a hyrwyddo cynhwysiant, byddwn yn cefnogi gwaith y Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi <i>(Cam gweithredu wedi gynnwys hefyd yn Amcan 11)</i>	Mawrth 2018
B	Atal Tlodi	
1	Byddwn yn cynllunio ac yn ail-gomisiynu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) gan weithredu newidiadau mewn ymateb i ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, a chan ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dan anfantais, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys hefyd yn Amcan 1)</i>	Mawrth 2018
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais â phlant (0-3) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig penodol, gan sicrhau cymorth amlasiantaeth da i deuluoedd ar draws y sbectrwm anghenion trwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys hefyd yn Amcan 1 a 2)</i>	Mawrth 2018
3	Byddwn yn darparu cymorth cyn-denantiaeth ac yn nodi, yn gynnar, y tenantiaid hynny y byddant o bosibl yn ei chael yn anodd gwneud eu taliadau rhent ar amser.	Mawrth 2018
4	Byddwn yn datblygu cynllun i gyflwyno goleuadau LED ynni effeithlon i gartrefi y tenant, ac ynghyd â chynlluniau eraill, bydd yn helpu i liniaru tlodi tanwydd. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 11)</i>	Mawrth 2018
5	Byddwn yn parhau i ymestyn ymagwedd y Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer rhai 0-25 oed, gan egluro trothwyon i helpu i roi gwybodaeth i deuluoedd ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r cymorth iawn ar yr adeg iawn. Byddwn yn datblygu dogfen drothwy i gefnogi'r arfer hwn. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 1)</i>	Mawrth 2018
6	Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gofal plant gwell i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a chymorth ariannol / cymorth adnoddau, yn ogystal â chynyddu nifer y gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd o'r sir sydd wedi'u targedu. <i>(Gweler yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 1))</i>	Mawrth 2018
7	Byddwn yn ymchwilio i botensial defnyddio tiroedd ysgol y tu hwnt i oriau addysgu er mwyn galluogi plant i gael mwy o gyfleoedd chwarae. <i>(Gweler yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae / arolygon)</i> <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys hefyd yn Amcan 1 a 2)</i>	Mawrth 2018
8	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ac sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a mathemateg <i>(5.0.3.1)</i> <i>(Hefyd yn Amcan 3)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 41.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16)</i>	42.0%
	<i>Gweler canlyniadau plant nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn Amcan Llesiant 3</i>	
9	Byddwn yn cynyddu canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref <i>(PAM/012)</i>	65% <i>(Canlyniad 2016/17 - 64%)</i>

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Targed
C	Helpu Pobl i gael Gwaith	
1	Fel rhan o waith Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) i gynnal y safon a darparu mwy o dai fforddiadwy, byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ddisgwyl i gontractwyr a/neu bartneriaid datblygu fanteisio i'r eithaf ar y budd a ddaw yn sgil ein buddsoddiad drwy greu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol. Rydym wedi ymrwymo i Offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur y Budd i'r Gymuned er mwyn asesu'r cynnydd yn y dyfodol.	Mawrth 2018
2	Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu a chyngor i denantiaid yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan newidiadau Diwygio Lles, gan weithio'n agos gydag asiantaethau eraill.	Mawrth 2018
3	Byddwn yn defnyddio'r Prosiect Barod am Waith (prentisiaethau, graddedigion, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, gwirfoddoli) i ddenu a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, e.e. pobl ifanc a phobl ag anableddau, ac i fonitro'r deilliannau. (SEPA/IPA)	Mawrth 2018
4	Byddwn yn lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). <i>Gweler Amcan 4 i gael camau gweithredu a mesurau manwl</i>	
5	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (PAM/5.1.0.1) (Hefyd yn Amcan 4)	(Canlyniad 2016/17 - 2.1%) 2.0%
6	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2) (Hefyd yn Amcan 4)	(Canlyniad 2016/17 - 2.0%) 1.9%
7	Drwy raglenni Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn byddwn yn targedu cymorth â chyflogaeth i oedolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.	Mawrth 2018
8	Drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf byddwn yn darparu cymorth cynhwysiant digidol.	Mawrth 2018
9	Drwy'r rhaglen Credydau Amser byddwn yn darparu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli er mwyn i drigolion wella eu sgiliau ac yn parhau i annog trigolion i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau drwy wirfoddoli (Hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2018
10	Drwy Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn, darperir hyfforddiant achrededig i oedolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig	Mawrth 2018
11	Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. (EconD/020) (Hefyd yn Amcan Llesiant 11)	(Canlyniad 2016/17 - 100%) 100%
12	Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. (EconD/021) (Hefyd yn Amcan Llesiant 11)	(Canlyniad 2016/17 - 100%) 100%
13	Byddwn yn cynyddu nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnir gan drigolion sy'n mynychu cysiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd rhaglenni cysylltiedig. (EconD/022)	(Canlyniad 2016/17 - 298) 300
14	Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i leihau % y boblogaeth oed gweithio sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra yn Sir Gaerfyrddin. (5.6.3.4)	(Canlyniad 2016/17 - 11.4%) 11.3%
D	Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi	
1	Byddwn yn helpu cymunedau lleol i ddatblygu prosiectau/gweithgareddau i fynd i'r afael â materion tldi gwledig drwy astudiaeth tldi gwledig 2015	Mawrth 2018
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrchu, a chan gysylltu â system Dewis	Mawrth 2018

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Targed
3	Byddwn yn parhau i gysylltu'r gwasanaeth Llyfrgell Symudol gydag Un Sir Gâr (yr Hwb) er mwyn darparu cyflogadwyedd a gwasanaethau cymorth Digidol ar draws y sir – gan greu cyswllt ag ymgyrch 'Ar-lein Amdani' Sir Gaerfyrddin	Mawrth 2018
4	Byddwn yn ceisio cyflwyno'r hybiau i ardaloedd eraill o angen yn y sir	Mawrth 2018
5	Byddwn yn parhau i gynyddu nifer y Clybiau Tanwydd lle nad oes prif gyflenwad nwy a hyrwyddo ystod o opsiynau i helpu tenantiaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.	Mawrth 2018
6	Byddwn yn datblygu rhagor o drefniadau partneriaeth mewn perthynas â cham-fanteisio ariannol	Mawrth 2018
7	Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol drwy raglen addysg ariannol Synnwyr Arian, sydd ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol gynradd yn y sir, ac yn datblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer ysgolion uwchradd	Mawrth 2018
8	Byddwn yn cynyddu nifer y bobl agored i niwed a difreintiedig sy'n cael eu diogelu drwy'r Cynllun Diogelu rhag Cam-fanteisio Ariannol (<i>Hefyd yn Amcanion Llesiant 11 a 9</i>)	Mawrth 2018
9	Byddwn yn cyflwyno ein Hapêl Tegan a Hamper i'r plant a'r teuluoedd hynny y dywedwyd wrthym fod angen rhywfaint o gymorth arnynt	Rhagfyr 2017
10	Byddwn yn cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cyngor ariannol a'r cymorth sydd ar gael i drigolion.	Mawrth 2018
11	Byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiwygiadau lles, yn arbennig estyn Credyd Cynhwysol, sy'n effeithio ar dderbynyddion Budd-dal Tai, ymysg Cwsmeriaid, aelodau etholedig ac i Randeiliaid/adrannau sy'n bartneriaid	Mawrth 2018
12	Byddwn yn parhau i fodloni gofynion Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau, y cytundeb partneriaeth o ran cymorth cyllidebu i hawl wyr agored i niwed, a chymorth technegol/arbenigol ar gyfer y canolfannau darparu Credyd Cynhwysol.	Mawrth 2018
13	Byddwn yn gweithredu Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau), gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau iach, ac anelu'n benodol at ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. (<i>Hefyd yn Amcan Llesiant 2</i>)	Medi 2015
14	Byddwn yn darparu cymorth gallu ariannol, gan alluogi trigolion i reoli dyled a chynyddu incwm	Mawrth 2018
15	Byddwn yn cadw nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd (<i>6.6.1.2</i>) <i>(Canlyniad 2016/17 - 21.12 diwrnod)</i>	21 diwrnod
16	Byddwn yn cynnal nifer cyfartalog isel y diwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (<i>6.6.1.3</i>) <i>(Canlyniad 2016/17 - 5.13 diwrnod)</i>	5.2 diwrnod
17	Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl (<i>6.6.1.9</i>) <i>(Canlyniad 2016/17 - 98.13 %)</i>	96%